## Cyngor Cymuned Cilymaenllwyd
## Cilymaenllwyd Community Council

# Polisi'r Amgylchedd

Mae gwarchod pobl a'r amgylchedd yn gydwybodol yn rhan annatod o arferion gwaith Cyngor Cymuned Cilymaenllwyd. Nod y polisi hwn yw darparu egwyddorion arweiniol y nodau a'r amcanion gan alluogi'r cyngor cymuned i ddarparu gwybodaeth a gweithredu uniongyrchol lle bo'n briodol.

1. Cefnogi a hyrwyddo Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Caerfyrddin a'i bolisïau sy'n helpu i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a hybu'r amgylchedd naturiol, cymdeithasol ac economaidd.

    - Darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am Gilymaenllwyd a'r cyffiniau.
    - Disgwyl y safonau effeithlonrwydd ynni uchaf posibl ar gyfer tai newydd ac adeiladau eraill.
    - Disgwyl y bydd safleoedd a neilltuwyd ar gyfer datblygiadau newydd yn hygyrch drwy gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus ac osgoi colli safleoedd natur lleol a mannau gwyrdd.
    - Cefnogi poblogaeth sy'n heneiddio yng Nghilymaenllwyd.
    - Hyrwyddo effeithlonrwydd ynni a chynyddu'r cyflenwad ynni adnewyddadwy.
    - Mwynau a Gwastraff; Annog defnydd effeithlon a phriodol a diogelu mwynau o ansawdd uchel. Cefnogi rheolaeth gynaliadwy ar wastraff.
    - Cefnogi cynigion a strategaethau Economi a Chyflogaeth yn unol â Strategaeth Ofodol / Fframwaith Aneddiadau'r Cynllun.
    - Cefnogi darparu a chadw cyfleusterau cymunedol.
    - Ystyried strategaethau Twristiaeth a Hamdden lle maent yn ychwanegu gwerth at, yn cadw ac yn gynaliadwy tuag at yr economi leol.

2. Cefnogi polisïau, strategaethau a chynlluniau sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod yr Iaith Gymraeg.

    - Cynorthwyo i warchod, gwella a hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a hunaniaeth ddiwylliannol, asedau a gwead cymdeithasol y gymuned.
    - Gweithio ochr yn ochr â sefydliadau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog eraill sydd â nodau tebyg.

3. Annog a chefnogi gweithredu sy'n canolbwyntio ar iechyd a lles pobl ifanc.

    - Adeiladu ar gysylltiadau gyda'r ysgolion lleol.
    - Annog rhyngweithio rhwng y cyngor cymuned a disgyblion lleol.

4. Hyrwyddo gweithredu ymarferol gan bobl leol o sefydliadau i unigolion.

    - Llunio arweinlyfr lleol sy'n rhoi gwybodaeth am fusnesau lleol, sy'n ymwneud â Masnach Deg neu ynni adnewyddadwy er enghraifft.
    - Annog a chynnwys clybiau a chymdeithasau lleol.

5. Defnyddio ein llais.

    - Postio gwybodaeth sy'n cael ei diweddaru'n rheolaidd ar gyfryngau cymdeithasol a gwefan y cyngor cymuned ynghylch materion cymunedol cyfredol.
    - Hyrwyddo dewisiadau cynaliadwy amgen i fentrau carbon uchel.
    - Materion traffig, trafnidiaeth a pharcio.

6. Annog a chefnogi grwpiau lleol

7. Sicrhau bod mannau gwyrdd, llwybrau troed ac ardaloedd o harddwch naturiol Cilymaenllwyd yn cael eu rhedeg a'u cefnogi mewn modd amgylcheddol gynaliadwy.

    - Ystyried defnyddio chwynladdwyr a phlaladdwyr.
    - Ystyried cyfundrefnau torri gwair sydd o fudd i'r amgylchedd yn gyffredinol.
    - Hyrwyddo gweithredoedd cadarnhaol

8. Bod yn ymwybodol o'r amgylchedd ym mhob agwedd ar fusnes y cyngor.

    - Defnyddio contractwyr lleol pryd bynnag y bo modd.
    - Prynu eitemau gwyrdd/cyfeillgar i'r amgylchedd lle bynnag y bo modd.

9. Ymatebion Ceisiadau Cynllunio – Cefnogi Cynllun Datblygu Lleol CSC, Cynllun Statws Net Di-Garbon erbyn 2030 a'r polisïau cyfatebol wrth ystyried ceisiadau cynllunio.

    - Sicrhau bod yr amgylchedd naturiol, gan gynnwys cynefinoedd a rhywogaethau, yn cael ei warchod a'i wella.
    - Diogelu a gwella'r amgylchedd adeiledig a hanesyddol
    - Sicrhau bod egwyddorion cynaladwyedd gofodol yn cael eu cynnal trwy gyfeirio datblygiad i leoliadau cynaliadwy gyda mynediad at wasanaethau a chyfleusterau a lle bynnag y bo modd annog ailddefnyddio tir a ddatblygwyd o'r blaen.
    - Gwarchod a gwella cymeriad, hynodrwydd, diogelwch a bywiogrwydd y gymuned

Chwefror 2023